# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS LUN**
**14 Gorffennaf 2025**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, R G Parry, C Thomas, G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng G Parry, H Owens, S Jones, D Fowlie (Cyngor Sir) | |
| **1** | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| **2** | **DATGAN DIDDORDEB** – Dim |
| | |
| **3** | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 03.06.25 fel cofnodion cywir. |
| | |
| **4** | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| **4.1** | **Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc wedi derbyn dyfynbris o £2244 gan Snowdonia Fire and Rescue ar gyfer uwchraddio system CCTV yr ysgol ac i ganiatáu camera i weld y maes chwarae. Mae pennaeth yr ysgol wedi cynnig cael dyfynbris arall. Cytunwyd i fwrw ymlaen â dyfynbris arall. |
| **4.2** | **Terfyn cyflymder Engedi** – Mae y Cyngor Sir yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru |
| **4.3** | **Mynwent Bryngwran** - Mae'r Clerc yn aros i glywed gan yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â dyddiad ar gyfer cysegru'r tir. |
| **4.4** | **Dosbarthwr bagiau cwn** - Nid yw'r dosbarthwr wedi'i osod yn Stryd Fawr, Bryngwran eto. Bydd y Clerc yn anfon copïau o'r e-bost at y Cynghorydd N Evans a bydd yn dilyn i fyny. |
| **4.5** | **Gwaith yn y maes Chwarae** - Mae David Williams, Contractwr Ffensio, wedi cadarnhau bod ei bris o £1056 yn dal i fodoli. Cytunwyd i fwrw ymlaen â'r gwaith. Hefyd, mae y Clerc wedi gofyn I cwmni A E & A T Lewis cysylltu a'r Cadeirydd I trefnu cael pris am draenio y cae Chwarae. |
| **4.6** | **Giat Bro Isaf** - Yn aros i glywed gan yr Adran Tai |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 09.09.25 |

| | |
|---|---|
| 5 | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd fod cwyn wedi dod i law gan breswylydd ym Mro Mynydd ynglŷn â phlant yn cicio peli wrth ei ffens gefn ac yna'n mynd i mewn i'w gardd i'w nol nhw. Mae'r Clerc wedi derbyn y gŵyn ac wedi'i hanfon ymlaen at y Cyngor Sir. |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | Dim |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | **Y Rhwyd** - Cais am rodd - cytunwyd i dalu £100 |
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| | Dim |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu’r canlynol: |
| **9.1** | Humphreys Waste (Anf HWR30081) £24.00 |
| **9.2** | Playsafety £110.40 (archwiliad y maes chwarae) |
| **9.3** | Archwilio Cymru £740.00 (audit 2022-2023) |
| **9.4** | Archwilio Cymru £235.00 (audit 2023-2024) |
| **9.5** | Rent blynyddol y maes Chwarae £80.24 |
| **9.6** | London Hearts £966.00 (Diffibriliwr Plas Crigyll) |
| **9.7** | Derbyniodd yr aelodau'r gwiriad cyllideb chwarterol a gwblhawyd gan y Clerc |
| **9.8** | Cynigiodd y Cynghorydd Ceri Thomas gwblhau'r gwiriad cyllid ar gyfer y chwarter yn gorffen 30.06.25 |
| **9.9** | Derbyniwyd adroddiad yr archwilydd mewnol ar gyfer 2024 - 2025 gan yr aelodau. |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | Llofnod…………………………Cadeirydd 09.09.25 |